**EPT-03-01 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 14 Chwefror 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:00 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

## Yn bresennol:

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Cyrff Allanol:***

| | |
|---|---|
| Richard Ninnes (eitem 4) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Stephen Cole (eitem 5) | Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Llew Rhys (eitem 5) | Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| David Rosser (eitem 5) | Cyfarwyddwr, CBI Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Robin Morgan (eitem 3) | Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith |
| June Milligan (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Gerry Quarrell (eitem 4) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Bob Evans (eitem 4) | Yr Is-adran Cynllunio |
| Denzil Jones (eitemau 3, 5, 6 a 7) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| David Purchon (eitem 2) | Ymchwilydd Annibynnol |
| Denys Morgan (eitemau 5, 6 a 7) | Ymgynghorydd Arbenigol |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Juliette Selby | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.0 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod. Hysbysodd yr aelodau fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/1 wedi cwrdd ar 7 Chwefror, a diolchodd i David Davies (Cadeirydd), Karen Sinclair a Geraint Davies am drefnu i fod ar gael.

0.1 Câi'r adroddiad interim drafft ar adolygiad bob pum mlynedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei drafod ar 21 Mawrth (nid 7 Mawrth fel a hysbysebwyd). Byddai cwmni adfywio cymunedol Trawsfynydd, Traws-Newid, yn rhoi cyflwyniad i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths ac yr oedd Delyth Evans yn bresennol yn ei le.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5, a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates – partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Nantygwyddon: Adroddiad cynnydd gan yr ymchwilydd annibynnol** – EPT-03-01 (p 1)

2.1 Cyflwynodd David Purchon ei adroddiad a thynnodd sylw at y materion canlynol:

- Mae Arolwg Daearegol Prydain wedi cytuno ar delerau am astudio, samplu a pharatoi adroddiad ar agweddau hydro-ddaearegol y safle;

- Sefydlwyd cysylltiadau da gydag Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus. Nid oedd Purolite eto wedi cyflwyno tystiolaeth, na Rhondda Waste Disposal Ltd (yn nwylo'r gweinyddwr) a 3C Waste, a oedd yn gohebu drwy eu cyfreithwyr;

- Yr oedd y Gwrandawiadau Cyhoeddus wedi dechrau'n dda, ond cafwyd oedi tra'r oedd cyrff cyhoeddus yn paratoi eu tystiolaeth;

- Gellid dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol o safbwynt sefydlu a rheoli safleoedd claddu sbwriel, ond byddai'n anodd asesu unrhyw effeithiau iechyd cysylltiol.

2.2 Cofnododd rhai aelodau eu hanfodlonrwydd nad oedd adroddiad ysgrifenedig yr ymchwilydd yn cydnabod yn ddigonol y cydweithrediad llwyr a ddangoswyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Llongyfarchodd David Purchon y cyrff ar ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd, ond ailadroddodd fod oedi cyn cyflwyno tystiolaeth wedi rhoi pwysau ar amserlen yr ymchwiliad. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y pwyllgor i fod i gyflwyno ei argymhellion i gyfarfod llawn erbyn diwedd tymor yr haf.

2.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd yr ymchwiliad wedi casglu swmp enfawr o fanylion, gan roi gofynion sylweddol ac annisgwyl ar gyrff cyhoeddus i adolygu papurau a oedd yn ymdrin â'u hymwneud â'r safle dros flynyddoedd lawer. Yn anochel, yr oedd hyn yn cymryd amser. Hynny, ynghyd

â chymhlethdod y materion sy'n cael eu codi, oedd yn achosi'r problemau amseru;

- Ymdriniai'r ymchwiliad â chyfnod pum ysgrifennydd gwladol mewn swydd, a dywedodd y swyddogion nad oedd yn briodol cyfeirio at y ffaith bod dau ohonynt wedi codi materion penodol;

- Yr oeddid wedi gofyn am wybodaeth i dri chyn-gyfarwyddwr ar Rhondda Waste Disposal Ltd ac yr oedd dau wedi cytuno i gydweithredu;

- Nid oedd yr Astudiaethau Iechyd wedi rhoi tystiolaeth "achos ac effaith". Yr oedd yr wybodaeth iechyd yn wael ac nid oedd Awdurdod Iechyd Bro Taf yn cynnal unrhyw astudiaethau pellach;

- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Purolite yn gofyn iddynt gydweithredu â'r ymchwiliad.

***Gweithredu:***

- *Cadeirydd y Pwyllgor i ysgrifennu at Purolite ar ran yr ymchwilydd*

**Eitem 3: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-03-01 (p 2)

3.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y materion canlynol:

- Ynni Adnewyddadwy – cyfarfu'r Gweinidog â chwmnïau ynni adnewyddadwy y bore hwnnw. Yr oedd Nodyn Cyngor Technegol yn cael ei lunio gan Grwp Ymgynghorol Technegol, ac yr oedd Mick Bates yn cynrychioli Grwp Ynni Adnewyddadwy y Cynulliad Cenedlaethol (NASEG);

- Trafnidiaeth – câi gorchymyn grant gwasanaeth trafnidiaeth lleol, a fyddai'n dod â grant cymhorthdal bysiau a thrafnidiaeth gymunedol ynghyd, ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn ar 27 Chwefror. Cynigiodd y Gweinidog drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder iddynt gyda'r aelodau cyn bod y gorchymyn grant arbennig a fyddai'n rhoi'r newidiadau hyn ar waith ac yn dyrannu cyllid i awdurdodau lleol yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn;

- Gostwng Nifer Damweiniau a Gwneud Bywyd yn Well – tynnwyd sylw'r aelodau at y cynigion yn atodiad 1 at yr adroddiad.

3.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Polisi Tocynnau Gostyngol – yr oedd trefniadau i’w roi ar waith yn cael eu llunio gan weithgor;

- Masnachfraint reilffyrdd – câi’r fasnachfraint newydd ei dyfarnu erbyn diwedd yr hydref, gyda’r gweithredwr sy’n cynnal y fasnachfraint ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau yn y cyfnod trawsnewid. Yr oedd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi cadarnhau y byddid yn cadw at yr amserlen;

- Gostwng nifer damweiniau ar gefnffyrdd – awgrymodd aelodau y dylid ehangu’r cynllun i gymunedau’r cymoedd. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith nad yw’r rhan fwyaf o ffyrdd yn y cymoedd yn rhan o’r rhwydwaith cefnffyrdd, ond gobeithiai y byddai awdurdodau lleol yn mabwysiadu cynlluniau cyffelyb. Yr oedd adroddiad ar strategaeth ddrafft lawn ar ddiogelwch y ffyrdd i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod llawn ym mis Ebrill, ac awgrymwyd y byddai’n fwy priodol efallai iddo ddod i’r pwyllgor;

- Ynni Adnewyddadwy – byddai’r Cadeirydd yn trafod cyd-drefnu’r gwaith gyda Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd;

- Uwchgynhadledd y Ddaear 2002 – cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i aelodau’r pwyllgor cyn gynted â phosibl sut y byddai’r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gynrychioli yn Uwchgynhadledd y Ddaear 2002.

**Eitem 4: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – Gweithredu / Deddfwriaeth** - EPT-03-01 (p 3)

4.1 Wrth gyflwyno’r papur, gofynnodd y Gweinidog am farn yr aelodau ynglyn â rôl y pwyllgor o ran rhoi’r Ddeddf ar waith; pa un y dylid cynnwys tir arfordirol yn y diffiniad o dir agored; a pha un y dylid cyflwyno ardal beilot yng Nghymru gyda mynediad agored iddi yn gynnar yn y broses.

4.2 Cymeradwyodd y pwyllgor y rhaglen deddfwriaeth eilaidd a amlinellwyd yn y papur, a dywedodd yr hoffai fod yn un o’r cyrff yr ymgynghorir ag ef ynglyn â'r prif elfennau.

4.3 Yr oedd yr aelodau yn cydymdeimlo â'r syniad o ymestyn ‘mynediad agored’ i gynnwys tir arfordirol, ond teimlai y dylid cwblhau’r rhaglen bresennol ar gyfer yr ‘ucheldiroedd’ yn y lle cyntaf. Byddid yn cefnogi’r syniad o sefydlu ardal beilot, ar yr amod na fyddai’n peri oedi i’r rhaglen gyfan.

4.4 Gofynnodd yr aelodau am i’r materion canlynol gael sylw fel rhan o’r rhaglen weithredu:

- Rheoli cwn;
- Mynediad i goedwigoedd;

- Gwaharddiadau a chyfyngiadau;
- Cyllid digonol ar gyfer gwaith rheoli a wardeinio.

4.5 Byddai'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhoi gwybodaeth bellach i'r aelodau am gyfrifoldebau'r gwahanol asiantaethau mewn perthynas â mynediad agored i dir coedwigaeth.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi ar Drafnidiaeth Gyhoeddus: Cyflwyniadau**

5.1 Clywodd y pwyllgor gyflwyniadau byr gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) a CBI Cymru. Yr oedd TUC Cymru wedi anfon ei ymddiheuriadau. Anfonwyd copïau o gyflwyniad CBI Cymru at yr aelodau a byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Yr oedd y prif bwyntiau a wnaethpwyd gan FSB yn ystod eu cyflwyniad fel a ganlyn:

- Arolwg – yr oedd astudiaeth fanwl o farn aelodau'r FSB wedi dangos bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei hystyried yn rhwystr rhag tyfu – yr oedd 65% yn anfodlon â'r drafnidiaeth gyhoeddus, dim ond 10% oedd yn fodlon. Y lefel anfodlonrwydd yng Nghymru oedd yr uchaf a gofnodwyd drwy'r DU. Tybiai 65% fod trafnidiaeth gyhoeddus wael yn llesteirio eu twf, ac yr oeddynt yn apelio am ffyrdd o liniaru'r broblem.

- Problemau – yr oedd yna lawer o broblemau, a'r rheini'n broblemau amrywiol. Câi siopau mewn trefi bach broblemau oherwydd pa mor aml yr oedd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i'w cael ac ar ba adegau, a theimlent nad oedd y drafnidiaeth gyhoeddus yn hwylus. Yr oedd yna farn mai rhywbeth ymylol oedd trafnidiaeth gyhoeddus, ac nad oedd yn darparu mynediad "cydgysylltiedig" i wasanaethau trên a gwasanaethau bws eraill;

- Twristiaeth – yr oedd yna ddiffyg gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer twristiaeth, ac nid oedd y cysylltiadau â'r rheilffyrdd a/neu'r gwasanaethau bws i mewn i Gymru yn cael eu hystyried yn hwylus. Yr oedd yna hefyd ddiffyg cysylltiadau o fewn Cymru;

- Rheilffyrdd – yr oedd y tarfu diweddar ar y rheilffyrdd wedi peri problemau a byddai rhai pobl yn troi eu cefnau ar drafnidiaeth gyhoeddus am byth;

- Gwelliannau posibl – trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a hawdd i'w hadnabod; siwrneiau dwyffordd wedi'u hamseru'n hwylus rhwng trefi cyfagos; gwneud gorsafoedd lleol yn fwy hygyrch er mwyn hybu integreiddio; gwasanaethau gydag amserlenni "cydgysylltiedig"; seilwaith i gynnwys gwelliannau twristiaeth; rhoi mwy o ystyriaeth i weithwyr a'u siwrnai i'r gwaith.

5.3 Trafodwyd y materion canlynol yn fwy manwl gyda'r cyflwynwyr:

- Y fframwaith trafnidiaeth – byddai hwn yn nodi gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth, a sut y gellid ei gwireddu o fewn cyfyngiadau'r pwerau a ddatganolwyd;

- Trafnidiaeth ar gyfer gweithwyr – awgrymwyd bod busnesau mawr yn chwarae rhan i annog gweithwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, neu hyd yn oed i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus ar eu cyfer, ond nodwyd bod angen gwella'r gwasanaethau er mwyn cael gweithwyr allan o'u ceir. Yr oedd angen hefyd i'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gwrdd ag anghenion y rheini sy'n gweithio oriau hyblyg.

- Twristiaeth – prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am drafnidiaeth gyhoeddus i deithwyr a busnesau bach fel ei gilydd;

- Diogelwch – yr oedd diogelwch personol yn ystyriaeth mewn gorsafoedd bysiau a threnau lle nad oes staff ar ddyletswydd. Gellid helpu yn hynny o beth drwy leoli busnesau bach mewn gorsafoedd.

5.4 Diolch y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniadau. Awgrymodd bod Llais Ifanc ac Age Concern i gael eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i gynrychioli barn teithwyr iau a hn.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi ar Drafnidiaeth Gyhoeddus: Rapporteurs yn adrodd yn ôl**

6.1 Rhoddodd Geraint Davies adroddiad yn ôl i'r pwyllgor yn sgîl yr ymweliad ag Amsterdam ar 9 Chwefror. Câi adroddiad ysgrifenedig ei anfon at aelodau a'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Prif nodweddion system trafnidiaeth gyhoeddus Amsterdam oedd:

- Cefnogaeth o du'r Llywodraeth – câi trafnidiaeth gyhoeddus ei noddi gan Lywodraeth wladol yr Iseldiroedd; mae ganddynt hefyd docynnau gostyngol (ond nid mor hael â Chymru). Rôl gyfyngedig i'r taleithiau, gyda'r cyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol;

- Rheoleiddio – dim Rheoleiddiwr cenedlaethol; mae'r awdurdodau lleol yn gweithredu fel rheoleiddwyr dros systemau trafnidiaeth lleol;

- Integreiddio – integreiddio llwyr a rhannu tocynnau rhwng bysiau, y metro a'r tramiau;

- Cynllunio – traddodiad o integreiddio cynllunio defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth. 3 parth o ran cynllunio lleol: A - dim ond ar drafnidiaeth gyhoeddus y gellir ei gyrraedd (ardal fewnol); B – gellir ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn y car; C – yn y car yn unig y gellir ei gyrraedd.

- Polisi llym ar barcio ceir (1 lle i 10 gweithiwr) a chynnydd o 50% mewn taliadau parcio y

flwyddyn nesaf;

- Newidiadau sydd yn yr arfaeth – yn dilyn newidiadau deddfwriaethol diweddar, byddai lefel y cymhorthdal ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yn gostwng (ar hyn o bryd 62% o gymhorthdal/38% refeniw, i symud i 50/50, a 42/58 erbyn 2010) a grym y farchnad yn cael ei gyflwyno. Yr oedd cyngor dinas Amsterdam wedi creu Adran newydd ac wedi sefydlu perthynas hyd braich gyda'r cwmni gweithredu. Y cyngor fydd yn pennu'r lefelau gwasanaeth a ddymunir, ac yn rhoi rhai gwasanaethau allan i dendr.

6.3 Y prif wersi a ddysgwyd oedd:

- Nid yw lefelau uchel o gymhorthdal refeniw gan y wladwriaeth yn gynaliadwy, er bod angen buddsoddiad ar raddfa fawr mewn seilwaith a gwasanaethau i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis realistig yn lle'r car;

- Er mwyn llwyddo i integreiddio mae angen mesurau rheoli traffig arnom sy'n gweithio ochr yn ochr â thrafnidiaeth gyhoeddus;

- Mae'r Iseldirwyr wedi defnyddio system a oedd yn bodoli'n barod ac wedi ei datblygu. Cyfyng yw'r cyfleoedd i roi model Amsterdam (heb y metro) ar waith yng Nghymru, ond byddai'n bosibl datblygu system reilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd gan ddarparu ar gyfer poblogaeth fawr.

6.4 Yn ychwanegol at yr ymweliadau sydd ar y gweill eisoes, awgrymodd yr aelodau y dylid nodi enghreifftiau o'r arferion gorau o ran darparu trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.

**Eitem 7: Adolygiad Polisi ar Drafnidiaeth Gyhoeddus: Y pynciau sy'n dod i'r amlwg**

7.1 Oherwydd diffyg amser, cafodd yr eitem hon ei throsglwyddo i'r cyfarfod nesaf. Gwahoddodd y pwyllgor y swyddogion i gyflwyno papur yn awgrymu sut y gallai'r adolygiad asio gyda'r fframwaith trafnidiaeth sy'n datblygu ac a gâi ei gyhoeddi'n fuan ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfod 31 Ionawr** - EPT-02-01(min)

8.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2001.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

9.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 7 Mawrth 2001 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2001**